



Llais Y Derwent



Gweithgareddau'r Haf

Dim ond mis yn ôl roedd pawb yn cwyno doedd dim arwydd o'r haf, wedyn yn ystod hanner cyntaf mis Gorffennaf roedd hi'n grasboeth a phawb yn siarad am effeithiau newid hinsawdd a chynhesu byd eang. A dyna rŵan efo'r glaw unwaith eto. Mae Prydeinwyr yn enwog am drafod y tywydd!

Mae cyfarfodydd ar lein Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby yn parhau. Efallai mai'r nifer o bobl sy'n dod yn lleihau ar hyn o bryd ond dw i'n tybio gwyliau haf sy'n gyfrifol am hynny. Yn sicr mi fysai hi'n dda cael glywed oddi wrth ein darllenwyr beth maen nhw wedi bod yn ei wneud dros yr haf, a sut maen nhw'n dal ati i ymarfer eu Cymraeg ac i ddysgu.

Mi fydd Taith Gerdded ar Sadwrn 14 o Awst o amgylch cronfa dŵr Tittesworth, Swydd Stafford, gwelir hysbys ar dudalen 5 am fwy o fanylion. Hefyd mi fydd sesiwn Panad a Sgwrs ar lein ar fore Sadwrn 21 o Awst. Os am gymryd rhan dylet ti anfon e-bost at menteriaithlloegr@mail.com.

Ers dechrau'r pandemig mae dysgwyr wedi bod yn greadigol yn darganfod ffyrdd eraill o gwrdd a dysgu, ac mae hi'n codi

calonnau bod cymaint o bobl newydd ddechrau dysgu'r iaith. Felly unwaith dyn ni'n gallu cwrdd yn y byd go iawn mi fydden ni'n croesawi siaradwyr a dysgwyr newydd. Mae llywodraeth Cymru yn ceisio cyrraedd miliwn o siaradwyr yr iaith erbyn 2050 ac mae gynnon ni oll ran i'w chwarae er mwyn cyrraedd y nod. Hir oes i'r Gymraeg!

Jonathan Simcock

Rhoi Tro ar Grefftio

Does dim amheuaeth fod y pandemig wedi achosi nifer fawr ohonom i ail-edrych ar y ffordd rydym yn byw a beth sy'n wir bwysig. Mae'r angen i ni aros gartref wedi gorfodi i ni ganolbwyntio ar ein hamgylchedd agos a gwneud y gorau o beth sydd gennym. Nid yw'n hollol syndod felly bod cynnydd mawr yn y nifer sydd wedi ail-ddarganfod diddordebau o'r gorffennol neu ddechrau rhywbeth newydd, gyda llawer wedi troi at waith llaw, crefftio, pobi, garddio ac yn y blaen a darganfod y pleser a'r effaith bositif ar iechyd ac yn enwedig ar iechyd meddwl gellir cael trwy ryddhau'r ochr greadigol.

Ond nid yw hyn yn anghyffredin. Yn ystod y Rhyfeloedd Byd roedd cynnydd mewn gwnio a gweu am resymau ymarferol, roedd rhaid ail-ddefnyddio oherwydd prinder ac

roedd angen nwyddau ar gyfer y milwyr. Mae'n debyg mai'r gymhariaeth yma yw'r ymgyrch i wneud mygydau pan roedd prinder ohonynt ar ddechrau'r pandemig. Mae'r canolbwyntio sydd angen gyda gwaith llaw yn helpu tynnu sylw o bwysau a phryder ac anghofio am beth sy'n digwydd yn y byd mawr am ychydig o leiaf ac mae hyn yn berthnasol pandemig neu beidio.

Fel un sy'n gwnïo ers fy ardegau roeddwn yn lwcus o allu troi at hynny ond gan fod cyfyngiad ar faint o ddillad sydd angen (oes wir-yr) nes i greu cwilt am y tro cyntaf i'w roi'n anrheg. Mae'n syndod y pleser sydd i'w gael o dorri darnau o ddefnydd ac ail wnïo nhw yn ôl at ei gilydd a does dim pen draw i'r patrymau sy'n bosibl. Gwell fyth os ydw i'n gallu ailgylchu'r cotwm o hen ddillad. Y cam nesaf fydd ceisio creu llun allan o ddefnydd, dim disgwiliadau ond fydd yn hwyl gweithio trwy'r broses a dysgu ar y ffordd.

Hoffwn feddwl bydd y cynnydd mewn poblogrwydd gwaith llaw yn parhau ond yn ymwybodol bod cyfnod y pandemig wedi bod yn hunllef i nifer fawr o bobl. Yn anffodus nid pawb sydd a'r lle na'r gallu i ddianc oddi wrth wirionedd eu sefyllfa a byddwn yn byw gyda chanlyniadau hyn am flynyddoedd i ddod mae'n siŵr a bydd angen mwy na chrefftio i ddatrys hynny. Ond buaswn yn annog unrhyw un os ydyw'n cael y cyfle i droi sŵn bywyd i lawr a rhoi tro arni i greu rhywbeth am y pleser a'r boddhad.

Mary Sillitoe

**Cenedl heb iaith
Cenedl heb galon**



Dyfodol Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby

Mae'r Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby (CDCD) wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd deg gwaith y flwyddyn ers 2005, gan gynnwys 15 gwaith ar gyfer Ysgol Undydd Cymraeg blynyddol Derby, ond ers Mawrth 2020 dyn ni ddim wedi bod yn cwrdd yn y byd go iawn. Er gwaethaf hynny mae rhai aelodau wedi bod yn mynychu'r cyfarfodydd Zoom a'r teithiau cerdded achlysurol sy wedi cael eu trefnu ar ran y grŵp.

Rŵan dyn ni wedi siarad â Chymdeithas y Cyfeillion Derby, sef y sefydliad sy'n gyfrifol am y neuadd lle mae CDCD yn cyfarfod fel arfer. Bellach mae hi'n bosib y bydd y neuadd ar gael unwaith eto ar gyfer cyfarfodydd gan grwpiau cymunedol ym Mis Medi, ond y cwestiwn yw fydden ni fel grŵp yn hapus i aildechrau cwrdd yno? Chwestiwn arall fydd yr amodau newydd ar ran y niferoedd sy'n cael caniatâd i gwrdd yno, a faint fydd y pris? Efallai bydd rhaid i ni drefnu cyfundrefn bwcio o flaen llaw a chydymffurfio efo rheolau newydd.

Peth pwysig arall fydd pwy sy'n mynd i drefnu rhaglen CDCD, agor y neuadd ar y bore Sadwrn pan bod ni'n cwrdd, a chasglu pres y rhai sy'n dod? Mae'r pethau hyn yn codi oherwydd fy mod i wedi dechrau'r proses o werthu fy nhŷ, er mwyn ymddeol a symud i Gymru. Oes'na rywun ymhlith yr 'aelodau' presennol sy'n hapus i gymryd y rôl fel trefnydd? Mae digon o arian yng nghyfrif banc CDCD i ariannu'r grŵp am flwyddyn, ond os does neb yn camu i'r bwlch fel trefnydd bydd rhaid i ni feddwl am ddod y grŵp i ben. Yn yr achos hynny bydd rhaid i ni benderfynu beth i'w wneud efo'r arian sydd yn y banc.

Ar ran 'Llais y Derwent' mi fydda i'n ddigon hapus i barhau fel golygydd, ac i roi'r cylchgrawn at ei gilydd, hyd yn oed ar ôl i mi symud i Gymru. Hefyd am y flwyddyn academaidd nesa, mi fydda i'n hapus i drefnu'r cyfarfodydd Zoom.

Mi fydden ni'n anfon e-bost i'r aelodau sy ar lein, a llythyr i'r rhai sy ddim, efo holiadur i gael barn ein haelodau, os oes dyfodol i'r grŵp mae hi'n bwysig bod pobl yn ymateb i'r holiadur.

Ond os does neb yn fodlon cymryd drosof fel trefnydd ni fydd hi'n bosib cynnal y cyfarfodydd misol yn Nhŷ Cwrdd y Crynwyr ar ôl i mi adael Swydd Derby.

Yn olaf hoffwn i ddiolch i bawb sy wedi cefnogi'r grŵp, yn enwedig Elin Heron a Delyth Neill, Allan Child a nifer o aelodau Cymdeithas Cymry Nottingham, megis Gwynne Davies, Howell Price a Viv Harris, heb anghofio pawb sy wedi dod i'r gweithdai a'r Ysgol Undydd dros y blynyddoedd. Mae cwrdd â chymaint o bobl frwd dros yr iaith wedi bod yn ffrainc ac yn bleser pur.

**Jonathan Simcock
Belper**

Casglu Llefydd a Chipio Tyrau

Arfer cyffredin ydy casglu pethau. Mae rhai pobl yn hoffi casglu pethau eithaf swyddogol fel stampiau neu ddarnau arian, er enghraifft, tra bod eraill yn casglu pethau llai ffurfiol fel recordiau finyl, tocynnau bws, rhaglenni chwaraeon, cylchgronau -- neu hyd yn oed copiau o "Llais y Derwent" efallai.

Mae mathau o gasglu sydd ddim angen cael gafael ar beth corfforol, hefyd. Mae rhai pobl yn 'casglu' gweld pethau arbennig. Efallai mai sylwi ar drenau (train spotting) ydy'r enghraifft fwyaf adnabyddus o hobi fel hwn. Gallwch brynu llyfr sydd â phob rhif trên ynddo, a thicio pob un trên oddi wrth y rhestr wrth ei weld. Mae rhai yn casglu pethau eraill yn yr un modd, er enghraifft bysiau, awyrennau, lorïau Eddie Stobart hyd yn oed.

Mae pobl hefyd sydd yn 'casglu' llefydd, neu gasglu ymweld â llefydd. 'Bagio copaon' ydy un enghraifft o gasglu llefydd. Mae bagwyr copaon yn trio dringo pob un mynydd sydd ag uchder dros faint neilltuol. Er enghraifft, mae bagwyr Munro yn trio dringo pob mynydd 'Munro' (mynyddoedd yn yr Alban dros uchder o dri mil o droedfeddi -- mae 282 ohonynt yn y cyfanswm). Wrth ddefnyddio'r un diffiniad, gyda llaw, mae pymtheg o fynyddoedd yng Nghymru a chwech yn Lloegr y basen nhw'n cael eu galw yn Munro tasen nhw yn yr Alban (h.y. sydd ag uchder dros dri mil o droedfeddi).

Dw i wedi sôn o'r blaen am hobi eithaf anghyffredin fy hun, sef canu clychau. Fydd 'na fawr o syndod bod canwyr clychau hefyd yn casglu pethau. Mae rhai ohonon ni (nid fi!) yn cofnodi pob un gloch yr ydan ni'n ei chanu (mae dros

47,000 o glychau yn y byd sydd wedi eu crogi ar gyfer canu newidiadau yn y modd 'Seisnig'). Ond peth mwy cyffredin i'w gasglu ydy tyrau. Mae canwyr clychau yn defnyddio'r term 'tŵr' i gyfeirio at leoliad lle mae set o glychau – fel arfer tŵr mewn eglwys. 'Cipwyr tyrau' ydy'r bobl sy'n trio canu clychau mewn cynifer o lefydd â phosib. Dydy canu dim ond un gloch ar eich pen eich hun ddim yn cyfrif. Er mwyn cipio'r tŵr, rhaid canu cloch fel rhan o grŵp o bobl sy'n canu'r clychau i gyd.

Dylwn i gyfaddef mod i'n cadw cofnod o bob un tŵr dw i wedi ymweld â fo, felly dw i'n gipiwr tyrau, er na faswn i'n dweud bod gen i obsesiwn -- eto! Ar hyn o bryd, mae 6,184 o dyrau yn y byd sydd â phedair cloch o leiaf ar gyfer canu newidiadau, a dw i wedi canu'r clychau mewn 506 ohonynt hyd yn hyn, dim ond 8 y cant o'r cyfanswm. Pedwar tŵr ar hugain ydy'r mwyaf dw i wedi ymweld â nhw mewn un diwrnod - er nad ydy hynny'n digwydd yn aml. Dychmygwch faint o risiau fasai rhaid dringo! Dw i'n siŵr bydd llawer o lefydd diddorol i ymweld â nhw yn y dyfodol, hyd yn oed os na fedra i gyrraedd pob un tŵr.

Oes unrhyw ddarllenydd Llais y Derwent sydd â hobi casglu mwy anarferol, tybed?

Greg Pearce
Caergrawnt

Tri Pheth Sy'n Anodd Imi

Tri pheth sy'n anodd imi,
Cyfri'r ser pan fo hi'n rhewi,
Rhoi fy llaw ar gwr y lleuad,
a gwybod meddwl f'annwyl gariad

Traddodiadol



Nansi Richards a T Llew Jones a'r Bobi Coch.

Dynes a oedd yn adnabyddus iawn i bawb oedd yn diddori ym mhopeth Cymreig yn ystod y ganrif ddiwethaf oedd Nansi Richards (1888 -1979); hi oedd y delynores enwog a defnyddiau'r ffug enw Telynores Maldwyn am ei bod wedi ei geni yn Sir Drefaldwyn; roedd yn feistres ar y delyn deires a hefyd y delyn bedal; enillodd ar gystadleuaeth y delyn dair gwaith yn olynol yn yr Eisteddfod Genedlaethol; cafodd hyfforddiant gan ei thad a sipswyn a arferai ymweld â fferm y teulu, ac wedi hynny yn ysgol gerdd y Guildhall yn Llundain. Cafodd yrfa lwyddiannus a hir fel telynores broffesiynol. Teithiodd yn yr Unol Daleithiau dair gwaith; cyfrannodd yn helaeth i fyd cerdd dant, eisteddfodau, a chyngherddau cerddorol; bu hefyd yn frwdfrydig i gasglu arian i brynu telynau i roi i bobl

ifanc oedd am ddysgu canu'r delyn ond heb y gefnogaeth ariannol. Mae 'na stori amdani yn cael gwahoddiad gan berchennog gwaith Kelloggs ger Chicago i weled y ffatri ar waith a digwyddodd ddweud fod yr enw Kellogg yn debyg iawn i'r gair Cymraeg ceiliog. Byth oddiar hynny mae llun ceiliog ar bob pecyn o corn flakes; gwir neu beidio mae'n stori ddiddorol. Beth sydd yn berffaith sicr yw ei chyfraniad anhygoel ym mywyd diwylliant a cherdd Cymru fel perfformwraig ac athrawes ac awdures, a hi yn anad neb a sicrhodd fod y delyn, yn enwedig y delyn deires, yn cadw ei lle fel offeryn answyddogol y genedl Gymreig, answyddogol o gofio mai yn yr Eidal ymddangosodd y delyn deires yn gyntaf; os ewch ar YOUTUBE ar eich cyfrifiadur mae'n bosib clywed a gweld hi'n canu'r delyn. Hefyd mae cryno ddisg yn cynnwys rhai o'i hen recordiau yn parhau ar gatalog cwmni Sain.

Wrth sôn am geiliog, mae hynny'n fy arwain braidd yn anuniongyrchol i sôn am geiliog arall sef Ceiliog y Gwynt (weather vane); dyna oedd teitl a osodwyd i gystadleuaeth yr englyn yn eisteddfod Genedlaethol Llanrwst yn ôl ym 1950; yr englyn buddugol allan o dros drichant oedd englyn T Llew Tones. Soniais am T Llew Jones yn rhifyn dwetha Llais y Derwent ac mae ei englyn i Geiliog y Gwynt yn engraifft dda o'i dalent a'i ddychymygy. Felly dyma ei englyn;-

Hen wylwr fry mewn helynt - yn tin-droi

Ar drawiad y corwynt;

Ar heol fawr y trowynt

Wele sgwâr polis y gwynt.

Rwy'n cofio darllen rhywle am Llew Jones yn esbonio i ohebydd papur

newydd alw yn ei gartref drannoeth ar ôl ei fuddugoliaeth a gofyn iddo beth oedd wedi ei ysbrydoli i sgrifennu'r englyn; ac iddo fynd a'r gohebydd tua llan i'r tŷ a phwyntio lan at geiliog y gwynt ar frig tŵr yr eglwys.

Wrth feddwl am y peth, 'falle fod y gyffelybiaeth yn yr englyn yn annealladwy i'r mwyafrif o'r genhedlaeth bresennol am fod gweld plismon yn rheoli'r traffig gyda'i ddwylo a'i freichiau ar sgwâr y dre neu ar groesffordd yn annhebygol iawn heddiw; yr unig dro fyddwch yn gweld y fath beth yn yr amserau hyn yw ar ôl damwain. Mae goleuadau traffig yn awr yn gwneud y gwaith yn fwy economaidd ond nid yn fwy effeithiol bob tro. Rwy'n cofio 'slawer dydd pan oeddwn yn grwt, roedd yn beth cyffredin iawn i weld y Bobi Coch yn sefyll ar groesffordd yn Llandeilo (Sir Gaerfyrddin) a phastwn yn hongian wrth ei gorpws; roedd hyn

SIARADWYR A DYSGWYR Cymraeg

GUIDED WALK FOR WELSH SPEAKERS AND LEARNERS



Taith Gerdded Cymraeg

Cronfa Dŵr Tittesworth, Swydd Stafford.

Cwrdd o flaen y canolfan ymwelwyr. Côd post ST13 8SW neu gyfeiriad grid SJ 994 603.

Rhaid talu £5 i barcio car.

Dewch a bwyd a diod. Gwisgwch ddillad a sgidiau cerdded addas. Paid a dod os oes symptoma Covid arnat ti

Rhaid bwcio lle felly cysylltu trwy rif ffôn symudol 07864 149978 neu e-bost

menteriaithlloegr@mail.com

ar y groesffordd lle roedd yr A40 pryd hynny yn cysylltu â'r A483; y Bobi Coch oedd y plismon lleol pryd hynny; fe'i adnabyddwyd gan bawb y Bobi Coch am fod ei wyneb cyn goched â cheirios; efallai canlyniad o'r ffaith ei fod yn orhoff o'i beint; roedd yn gymeriad cryf o gwmpas y dre a phawb yn ei barchu a hefyd ei ofni i raddau. Roedd fy nhad byth a beunydd ac un golau diffygiol ar ei gar - Morris 13 os ydych am wybod - a byddai yn osgoi mynd drwy ganol y dre yn y nos rhag i lygad barcud y Bobi Coch sylwi fod un golau ôl yn absennol a byddai hyn yn siwr o arwain i dderbyn tocyn drwy'r post a chosb o ryw £2. Os oes nefoedd (ac rwy'n obeithiol fod 'na nefoedd) dychmygaf weled y Bobi Coch wrth ei fodd yn rheoli'r traffig ar groesffyrdd y nef yn ei ffordd bendant, a gwae neb a fentra beidio cymryd sylw ar ei arwyddion. Cyfarchion a byddwch ddiogel.

**Howell Price
Nottingham**

Geirfa

Y delyn deires – triple harp
gohebydd - reporter
answyddogol - unofficial
crynoddisg - CD
corwynt - strong air current
trowynt - whirlwind
cyffelybiaeth - comparison;
diffygiol - faulty.

Cymdeithas Cymry Nottingham



www.nottinghamwelshsociety.org.uk



Dysgu'r Gymraeg: hanes ferch o Swydd Derby

Ro'n i'n un deg saith oed pan ddywedais i wrth fy mam-gu o'n i'n mynd i Brifysgol Aberystwyth i ddysgu Cymraeg. 'What you want to learn Welsh for?' atebodd hi, a dw i wedi bod yn meddwl am sut i ateb y cwestiwn hwnna ers ugain mlynedd. Wnaeth Mam-gu ddim siarad Cymraeg, a does neb arall yn hanes diweddar fy nheulu sy'n gallu'r iaith chwaith. Mae fy nghyfnitheroedd ac aelodau eraill y teulu wedi dysgu yn yr ysgol, a daeth Anti Eileen, sy wedi priodi i mewn i'r Merrimans, o deulu Cymry Cymraeg. Mae Dad wedi dysgu tipyn bach dros y blynyddoedd hefyd (mae e wedi bod yn wneud Duolingo yn ystod yr ail gyfnod clo!), ond does neb sy wedi siarad yr iaith o'r grud. Mae'n sefyllfa debyg i deulu fy ngŵr i hefyd, ond mae fy nheulu i wedi byw yng Nghymru ers cenhedloedd, roedd y Herons yn fewnfudwyr o'r Ffindir yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg. Maen nhw wedi colli iaith arall o'u teulu nhw.

Fel tiwtor, dw i'n clywed llawer o storiâu gwahanol am sut mae dysgwyr wedi dod i ddysgu Cymraeg. Mae nifer

ohonyn nhw'n hoffi mynd i Gymru ar eu gwyliau ac eisiau deall iaith y bobl sy'n byw yno. Mae rhai, hyd yn oed, eisiau ymddeol yno neu brynu bwthyn - rhywbeth sy ddim yn boblogaidd ym mhob man, wrth gwrs, ond sy'n mynd rhywffordd i ddangos pam mae cymaint o bobl yn dysgu'r iaith y dyddiau'ma. Mae rhai'n 'casglu' ieithoedd ac wedi dysgu llawer dros eu bywydau. Mae nifer, hefyd, sy'n dysgu achos bod aelod y teulu yn siarad Cymraeg - plentyn yn yr ysgol, efallai, neu gariad.

Ond dw i wedi clywed un stori gan lawer o ddysgwyr dros y blynyddoedd ers i mi ddechrau dysgu'r iaith yn Derby sy'n debyg, efallai, i fy hanes i.

'Wnaeth Mam/Mam-gu/Taid yn siarad Cymraeg, ond penderfynon nhw siarad Saesneg i mi. Dw i eisiau trwsio'r toriad ac i adennill yr iaith i fi a fy nheulu.' Fel arfer, mae teimladau y dysgwyr hyn yn ddwys iawn; maen nhw'n teimlo fel bod rhywbeth wedi cael ei ddwyn oddi wrthyn nhw, neu wedi mynd ar goll, a dyw hi ddim yn anghyffredin i mi gwrdd â phobl sy'n grac neu'n drist iawn am hwn.

Dyw e ddim cweit yr un peth i mi. Yn rhannau o Sir Penfro, mae eitha' lot o bobl yn siarad Cymraeg wrth gwrs. Yn Hwlfordd, Arberth a'r ardaloedd o gwmpas, o le mae fy nheulu yn dod yn wreiddiol, mae'r rhan fwyaf o drigolion yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf ac wedi gwneud hynny ers canrifoedd. Does dim toriad amlwg, felly, yn hanes fy nheulu pan wnaeth bobl yn stopio siarad Cymraeg a dechrau siarad Saesneg yn ei lle. Ond, pan o'n i yn fy arddegau, ro'n i'n teimlo yn unig fel fy nysgwyr i - roedd rhywbeth wedi mynd ar goll. Er o'n i ddim yn gallu dweud lle cafodd yr iaith ei cholli yn fy achau, teimlais i bryd hynny roedd rhaid i fi siarad yr iaith i fod yn Gymraes go iawn.

Wedi cwblhau fy ngradd yn Y Gymraeg yn 2004, ac wedyn yn symud yn ôl i Swydd Derby, roedd y gred o fy Nghymreictod yn dibynnu ar siarad yr iaith wedi newid tipyn bach. Dw i'n hapus iawn mod i wedi dysgu ac mae'n wneud i mi'n falch iawn i helpu pobl i ddod o hyd i'w hiaith goll nhw. Dw i wrth fy modd, hefyd, i glywed fy nheulu - hyd yn oed fy mab bach, Taliesin - yn siarad tipyn bach o Gymraeg. Aeth yr iaith ar goll rhywbryd yn ein hanes ni, ond, dw i'n deall nawr bod fy nheulu, gyda'r iaith neu hebdi, yn Gymry i gyd.


'What you want to learn Welsh for?' dywedodd Mam-gu. Efallai heddiw byddwn i wedi dweud 'i ti, Gran, ac fel anrheg i bawb yn y teulu a ddaeth cyn, ac i bawb fydd yn dod.'

**Elin Heron
Belper**

'Lle ar y Ffin Hyblyg'

Un o'm hoff ardaloedd yng Nghymru a Lloegr (ie, ar yr un pryd!) ydy'r Gororau. Wrth gwrs, y ffin ei hun rhwng Lloegr a Chymru a'r tir sydd o boptu'r ffin ydy'r Gororau, ond mae llawer o bobl yn meddwl am y Gororau fel y tir sy'n ymestyn rhwng Henffordd a Wreccsam. Dyna sut dw i'n gweld y Gororau hefyd ac efallai mai'r rhan o'r ffin sy'n rhedeg o Drefaldwyn i'r ffin swydd Amwythig/swydd Henffordd yn y de ydy fy hoff ran o'r ardal arbennig iawn.

Mae'r ffin swyddogol, fel y'i gosodwyd gan y Tuduriaid, yn un wleidyddol a gweinyddol. Dydy hi ddim yn cynrychioli newid o ran iaith neu ddiwylliant. Dydy hi ddim yn gwneud synnwyr ynglŷn â hanes naturiol, topograffi na



phoblogaeth. Yn hynny o beth, mae Clawdd Offa'n ffin well o lawer a chodwyd hwnnw yn yr 8fed Ganrif, sef chwe chanrif cyn i Ddeddf Uno sefydlu'r ffin bresennol pan gorfforwyd Cymru'n wleidyddol a theyrnas Lloegr. Heblaw marciau ar fapiau ac arwyddion ar y ffyrdd, dydy'r ffin ddim yn amlwg. Mae'r ffin yn hyblyg ac mae'r trawsnewidiad o un wlad i'r llall yn un graddol. Mae'r Saesneg a'r Gymraeg yn gwneud cyfraniadau cyfartal ac mae hanes y ddwy wlad yr un mor bwysig. Dydy'r bobl sy'n byw ar y Gororau ddim yn 'cydnabod' y ffin mewn synnwyr diwylliannol. Yn ystod seremoni gloi Sioe Flodau Amwythig, cenir anthemau cenedlaethol Lloegr a Chymru.

Yn bersonol, dw i wastad wedi anwybyddu unrhyw syniad o ffin gadarn a byddaf yn mwynhau naws yr ardal heb gydsyniadau o ffiniau'n pwyso arna i! Mewn gwirionedd, dw i wrth fy modd mewn ardal lle mae Lloegr a Chymru'n toddi'n un wlad a lle mae dylanwad y ddwy wlad yn cael ei deimlo. Does nunlle yn Lloegr na Chymru sy'n teimlo'n debyg a hoffwn sôn am le

penodol sy'n cynrychioli'r teimlad o 'ffin hyblyg', sef 'y Stiperstones': cribyn o greigiau trawiadol.

Yn swydd Amwythig mae'r Stiperstones ('Carneddau Teon' yn y Gymraeg) ac mae'n rhan o ystod o fryniau sy'n ymestyn i Ddyffryn Trefaldwyn yn y gorllewin. Cafodd ei rheoli fel rhostir grugiar yn y gorffennol ac erbyn hyn mae'n Warchodfa Natur Genedlaethol. Mae rheolaeth, o safbwynt cadwraeth natur, yn cynnwys ymdrechion i annog twf y grug ar hyd y cribyn. Mae'r gwythiennau mwyn sy'n bresennol yn y brynau hyn wedi cael eu gweithio ers cyfnod y Rhufeinwyr. Does dim cymaint o fwrlwm yma erbyn hyn, ond mae creithiau ac adfeilion y mwynfeydd yn ychwanegu naws ddiffaith i'r ardal.

Ffurfiwyd y cerrig rhwng 495-450 miliynau o flynyddoedd yn ôl yn y Cyfnod Ordofigaidd. Mae daeareg y Cyfnod hwn yn gymhleth iawn gan fod gwaddodion morol, mewnwthiadau folcanig, ffawtiad sylweddol yn ogystal ag anticlin a synclin wedi cyfrannu at ffurf y dirwedd. Mae brig y Stiperstones wedi cael ei ffurfio gan 'cwarts arenite' sy'n galed iawn. Er nad ydy yn gwarts go iawn, gelwir y garreg 'Stiperstones Quartz'. Mae hon yn ffurfio cyfres o frigiadau creigiog trawiadol gan gynnwys 'Manstone Rock', 'Cranberry Rock' a 'The Devil's Chair'. Tywodfeini a cherrig silt sy'n ffurfio ochr orllewinol y cribyn a'i dyffrynnoedd serthochrog a gelwir y rhain 'Mytton Flags'. Ffurfiwyd gwythiennau plwm, sinc a barytes (trwy fwyneiddiad) yn y Cyfnod Carbonifferaidd (359-299 miliynau o flynyddoedd yn ôl). Yn ystod Oes yr Ia diwetha' (15,000-12,000 o flynyddoedd yn ôl), roedd yr ardal hon ar gyrion y rhewlifoedd. Mae'r fath dirweddau'n cael eu galw 'tirweddau ffinrewlifol' ac mae gweithred dŵr a fasai'n rhewi a

thoddi ar yn ail a'r oerni (yn enwedig gyda'r nos) yn dryllio cerrig sydd uwchben wyneb y tir. Mae'r ffactorau hyn yn chwalu cerrig a oedd o dan y pridd ac wedyn basai'r pridd yn symud i lawr i lethrau trwy weithredoedd a elwir 'priddlifiadau'. Mae'r nodweddion hyn yn amlwg ar y Stiperstones. Tirwedd ffinrewlifol nodweddiadol, felly.

Mae'r hebog tramor, mwyalchen y mynydd, gyflfinir a'r grugiar yn bresennol ar y Stiperstones. Mae'r prosiect 'Back to Purple' wedi dechrau a chlririo rhai planhigfeydd conifferaidd ac adfer y grug ydy nod y prosiect. Bydd hyn y llesol i nifer o adar sy'n nythu ar y tir, enwedig y grugiar y mae ei niferoedd wedi gostwng yn sylweddol dros 100 mlynedd ddiwetha', a rhai gloynnod byw.

Mae canolfan ymwelwyr o'r enw 'The Bog' wedi ei lleoli mewn hen ysgol i'r de o'r Stiperstones ac mae'n darparu gwybodaeth am hanes y mwynfeydd a'r gwaith a fydd yn gwella'r dirwedd.

Os cewch chi gyfle, ewch i'r Stiperstones. Does dim angen cerdded i 'Manstone Rock' na 'The Devil's Chair' (er mai'r golygfeydd gorau sydd i'w gweld o'r manau hyn) er mwyn mwynhau naws yr ardal. Mae'r ardal mor wledig ac mae golygfeydd godidog o Lloegr a Chymru. Ym mha gyfeiriad bynnag yr edrychwch, mae'r dirwedd yn brydferth. Lloegr a Chymru. Y ffin hyblyg.

Martin Coleman
Clay Cross

**Menter Iaith Lloegr - grŵp
ar Weplyfr i ddysgwyr a
Chymry alltud yn Lloegr**



Darganfod cerddoriaeth gyfoes Gymraeg

Fel eraill ar draws y byd roedd yna amseroedd lawer i mi deimlo'n rhwystredig a chaeth drwy argyfwng Covid. Ac eto, er gwaethaf hyn, daeth hefyd a bendithion annisgwyl yn ei sgil: defnyddiais y cyfnod i ymddiddori mewn cerddoriaeth gyfoes Gymraeg, a mwynhau'r profiad yn fawr.

Ond - ble i gychwyn a minnau yn byw yn Lloegr, heb ddolen gyswllt amlwg i fyd y bandiau Cymraeg? Sut i fynd o amgylch pethau heb brynu cryno ddisgiau'n 'fyddar' yn y gobaith y byddwn i'n eu hoffi? Beth ydi enwau'r grwpiau sy'n bodoli a pha fath o gerddoriaeth maen nhw'n chwarae? Ysgrifennais yr erthygl hon gan obeithio y bydd yn ennyn diddordeb eraill yn yr un sefyllfa ac y bydd yr awgrymiadau o gymorth.

Cychwynnais drwy wrando ar radio Cymru a gwneud nodyn o draciau neu fandiau 'roeddwn wedi eu hoffi. Yna ymlaen at Spotify i greu rhestrau o gerddoriaeth Gymraeg - i ymlacio, neu

i ddawnsio ac yn y blaen. Yn ffodus, mae technoleg wedi trawsnewid argaeledd cerddoriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac wedi dymchwel y ffiniau daearyddol.

Fel y soniwyd mewn erthygl ar wefan y BBC ym mis Mawrth 2021: 'Swnami: "why can't we sing in Welsh and be successful?"', lle'r oedd y band Swnami wnaeth gynrychioli BBC Radio 1 yng ngŵyl Eurosonic yn yr Iseldiroedd, yn nodi llwyddiannau bandiau eraill o Ewrop sydd ddim yn canu yn Saesneg. Yn ogystal, trafodir bod medru ffrydio cerddoriaeth yn fyd eang yn agor marchnadoedd y tu allan i'r gynulleidfa arferol yng Nghymru. Nododd awdur yr erthygl bod gan y bandiau Cymreig hyder newydd yn eu hunaniaeth a ffydd yn lled eu hapêl gerddorol sy'n cydio heb fod angen medru'r iaith.

Mae yna gymaint o fandiau Cymraeg dawnus ac ardderchog ond dyma ddetholiad byr - tamaid i aros pryd - mwynhewch!

Roc: Adwaith, Yws Gwynedd, Candelas, Frizbee, Alffa

Pop: Al Lewis, Band Pres Llaireggub
Dylanwad Brasil: Carwyn Lewis & Rio 18 - albwm 'Mas'

Indi-Roc-Pop: Fleur De Lys

Indi-Roc: Swnami

Gwerin: Bwncath, The Gentle Good, 9Bach

Dawns Electroneg: Eadyth, Ani Glass

Rap/Hip-hop: Mr Phormula

Artistiaid unigol: Casi Wyn, Kizzy Crawford, Fflur Dafydd, Mared Williams, Aled Hughes, Elin Fflur

Offerynnol: Gwenno Morgan, Cerys Hafana

Clasuron: Steve Eaves (gwerin), Meic Stevens (gwlad), Geraint Jarman (reggae)

Os am ganfod talent Gymreig yn canu yn Saesneg, beth am wrando ar 'Welsh of the West End' ar You Tube - cantorion anhygoel wnaeth fideos cerddoriaeth o ansawdd hudol tra'n cadw pellter cymdeithasol yn ystod argyfwng Covid.

Wrth gwrs, mae'n bwysig i ni gefnogi ein hoff artistiaid drwy brynu eu CD neu dalu i lawrlwytho'r gerddoriaeth yn ddigidol gan na all fandiau fyw oddi-ar y ganran a roir gan Spotify. Gellir edrych ar wefan yr artist i weld ble i lawrlwytho eu gwaith e.e drwy iTunes, Amazon ac yn y blaen.

Mae nifer o ddigwyddiadau a mudiadau sy'n dathlu cerddoriaeth Gymraeg hefyd e.e Dydd Miwsig Cymru, Tafwyl, Sesiwn Fawr Dolgellau a Gwobrau'r Selar. Mae newyddion am gigs a senglau newydd ar selar.cymru.

Un diwrnod, hoffwn gefnogi'r artistiaid wrth wrando arnynt yn fyw pan fo hynny'n bosib, i barhau profiadau cadarnhaol dros ben.

**Llinos Hobson
Heanor**



TYFU
CYMRAEG
grow your welsh

www.tyfu-Cymraeg.co.uk



Ar Gefn Fy Ngheffyl – Y Genedl Navaho

Er mwyn ymestyn fy narlleniad yn y Gymraeg, ges i'r syniad i ddarllen y llyfrau ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Gymraeg. Un o'r llyfrau hynny ydy "I Ble'r Aeth Haul y Bore?" gan Eirug Wyn, stori sy'n cymryd lle yn 1863 pan orchynnwyd Kit Carson i symud llwyth o Navaho allan o Geunant de Chelly, Arizona. Gorfodwyd dros 8000 Navaho i wneud "The Long Walk" creulon o 400 milltir fel y gallai pobl wen feddiannu eu tir. Bedair blynedd yn ddiweddarach caniatwyd i'r Navaho ddychwelyd. Dim ond ychydig o gannoedd sy'n byw yng Ngheunant de Chelly hyd yn hyn a chefais y pleser o ymweld â nhw ym mis Medi 2004.

Y modd gorau o deithio trwy'r genedl Navaho ydy ar gefn ceffyl. Felly trefnais deithio efo'r un cowbois a oedd wedi tywys fy nhaith i'r Grand Canyon y flwyddyn o'r blaen. Y gwahaniaeth y tro hwn oedd yr angen i gael arweinydd Navaho ac i ddefnyddio tryc, yn lle mulod, i symud ein pebyll a bwyd fel y medrwn ni fynd ymhellach. Bydden ni'n treulio dwy neu tair noson ym mhob lle

cyn symud y gwersyll.

Dechreuon ni'r daith yn "Spider Rock" yng Ngheunant de Chelly. Twr tywodfaen o 800 troedfedd ydy "Spider Rock" a chartref "Spider Woman" a weodd we'r bydysawd yn stori creu'r Navaho. Yn dilyn Calvin, ein harweinydd Navaho, marchogon ni ar hyd y ceunant rhwng clogwyni tyrau. Roedd ffermydd bach a sawl "hogan" y ty traddodiadol Navaho wedi'i wneud allan o bren a chlai a heb drydan a dŵr. Roedd ychydig o goed eirin gwlanog i'w weld, gweddillion perllannau wedi'u dinistrio gan Kit Carson a'i "Scorched Earth Policy".

Cyn i'r Navaho gyrreadd Ceunant de Chelly, roedd y "Anasazi" yn byw yno a gwelon ni adfeilion "The White House" lle adeiladadodd hwnnw eu tai i mewn i waliau'r ceunant. Roedd gwareiddiad y Anasazi yn un fawr ond diflannon nhw yn llwyr. Yn ôl Calvin, mae'r Navaho yn disgwyl rhywbeth tebyg i ddigwydd i wareiddiad y bobl wen. Mae'r Navaho'n meddwl bod popeth y mae'r bobl wen wedi'i greu wedi mynd allan o reolaeth (e.e. peiriannydd, cyffuriau, arian) felly maen nhw'n disgwyl y bobl wen greu rhywbeth sy'n mynd i'w dinistrio.

Roedd siarad efo Calvin yn ddiddorol iawn, ac roedd yn anhygoel hefyd i glywed yr iaith Navaho. Mae siarad yn uchel yn anfoesgar i'r Navaho felly maen

nhw'n siarad yn dawel mewn iaith sy'n parchu'r byd naturiol o'u cwmpas. Mae'r iaith Navaho wedi goroesi ymdrechion pobl wen i'w lladd. Soniodd Calvin am blant a gafodd eu gorfodi i gael eu cegau eu golchi â sebon yn yr ysgol am siarad Navaho.

Cwrddon ni a'r tryc erbyn "Canyon Del Muerto" lle wnaethon ni osod ein gwerysll. Y diwrnod wedyn, marchogon ni i weld adfeilion "Antelope House" ac amrywiaeth o petroglyffau a phaentiadau ar waliau'r ceunant. Roedd yn bosib i'w weld rhai polion pren yn uchel yn waliau'r ceunant a adawyd ar ôl gan bobl yn ffoi rhag Kit Carson. Dringon ni allan o'r ceunant i gyfarfod y tryc a threlar ac, ar ôl ffarwelio Calvin, yrron ni i Monument Valley.

Wnaethon ni osod ein gwerysll yn y lle gafodd John Wayne ei dŷ yn y ffilm "The Searchers". Wnaeth ein harweinydd newydd, Lonnie, ddod â ni i weld tirwedd anhygoel o dywodfaen wedi'i gerflunio. Chanodd o yn Navaho ar y trywydd. Ymwelon ni â mam Lonnie yn ei "hogan". Roedd Susie 90 oed ar y pryd ac roedd hi wedi bod yn dangos ymwelwyr sut mae'r Navaho yn gwehyddu blancedi am oesoedd. Roedd yn anrhydedd cwrdd â hi.

Roedd ein gwerysll olaf ym mhentref bach o'r enw "Rainbow City". Roedd y Navaho yno yn cadw defaid a geifr ac roedd llawer o gŵn defaid yn eu gwarchod nhw. Efo arweinydd Joe gwelon ni rai "sweat lodges" hynafol. Mae rhai Navaho wedi dianc rhag Kit Carson yn yr ardal honno achos bod y tir mor anhreiddiadwy. Roedd rhaid y dihangwyr fwyta popeth er mwyn goroesi ac nid ydy'r bywyd gwyllt wedi gwella o hyd. Daeth Leo, pennaeth y llwyth lleol, i swper efo ni. Wnaeth ei wraig goginio "Navaho fry bread" a dangos basgedi Navaho i ni.

O "Rainbow City" marchogon ni i gopa "Navaho Mountain" i weld yr olygfa anhygoel ar draws y genedl Navaho a "Lake Powell". Ar y diwrnod olaf,

cawsom ni ras ceffyl gwallgof ar y ffordd i'r llyn i gwrdd â chwch pwerus. Wnaethon ni ffarwelio â'r ceffylau a chymryd y cwch ar hyd y llyn i weld "Rainbow Bridge", bwa tywodfaen anferth sy'n bwysig iawn i'r Navaho.

Crewyd "Lake Powell" gan y bobl wen. Protestiodd y Navaho heb lwyddiant erbyn y cynllun. Roedd y bobl wen yn meddwl bod eu hangen am ddŵr yn fwy pwysig na phryderon perchnogion Navaho y tir. Felly, cafodd tirwedd gysegredig y Navaho ei boddi. Heddiw mae "Lake Powell" yn ardal hamdden boblogaidd iawn sy'n denu miloedd o bobl. Gyda'u harian a'u sŵn mae ymwelwyr yn gwneud cyferbyniad llwyr â'r Navaho. Ges i'r cyfle i nofio yn y llyn ond o'n i'n teimlo amharchus am drin tirwedd ysbrydol y Navaho fel maes chwarae.

Mae'r Navaho yn cysylltu efo'r tir achos bod nhw'n byw ymhlith y lleoedd yn eu stori greadigaeth ac maen nhw'n falch o eu hiaith, eu tir a'u caneuon. Roedd gweld eu ffordd syml o fyw mewn tirwedd mor enfawr yn brofiad ymddarostyngol.

Cetra Coverdale Pearson
Swanwick

Geirfa

adfeilion – ruins

anhreiddiadwy – impenetrable

ceunant – canyon

clogwyni – cliffs

dihangwyr - escapees

dirwedd – landscape

dywodfaen – sandstone

anfoesgar – impolite

Llais Y Derwent

Os dych chi eisiau sgwennu erthygl
i 'Llais' cysylltwch drwy ffônio 07864
149078 neu anfon neges ebost at
menteriaithlloegr@mail.com